



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

NODYN CYFARWYDDYD ECO-FLEX I DDEILIAID TAI

Gweithredir y cynllun ECO-Flex gan gwmnïau preifat, a chaiff y cyllid ar gyfer y gwelliannau ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae cyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfyngedig ac nid yw'n gyfrifol am roi cyllid, penodi contractwyr na gosod y gwaith. Ar gyfer perchnogion preifat a thenantiaid sy'n rhentu'n breifat yn unig y mae'r cyllid ar gael.

1. Bydd angen i ddeiliaid tai gysylltu â gosodwr sy'n darparu'r cynllun. Mae nifer o osodwyr yn gweithredu ar hyn o bryd o fewn Gogledd Cymru. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cwmnïau yn cysylltu â chi yn uniongyrchol dros y ffôn, dros e-bost, curiad ar y drws, llythyr neu bamffled. Mae'r Cyngor yn argymhell yn gryf i chi beidio â derbyn ymholiadau gan alwyr diwahoddiad wyneb yn wyneb a bod gosodwyr yn darparu tystiolaeth briodol o hunaniaeth ym mhob achos. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo nag argymhell unrhyw asiant penodol, ond byddem yn eich cyngori i geisio cyngor annibynnol i sicrhau eich bod yn cael cynnig y fargen orau.
2. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn derbyn gwelliannau arbed ynni, bydd y gosodwr yn gwirio eich bod chi a'r eiddo yn bodloni meini prawf cymhwyso'r cynllun. Byddant hefyd yn trefnu i gwblhau arolwg o'r eiddo er mwyn ystyried pethau megis oedran y boeler, y mesurau inswleiddio sydd ar waith a nifer a maint yr ystafelloedd.

Meini Prawf Cymhwyso: rhaid i ymgeiswyr fyw mewn tloidi tanwydd neu'n agored i niwed o fyw mewn cartref oer a byw mewn eiddo gyda Thystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G neu sgorio'n uchel ar y ffurflen gais oes nad oes ganddynt Dystysgrif Perfformiad Ynni. > Bydd gofyn i ddeiliaid tai lenwi ffurflen gais byr a gaiff ei chyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i bennu cymhwysedd.

Rhaid dychwelyd y ffurflen gais i'r gosodwr a fydd yn cyflwyno'r cais ar eich rhan. NI DDYLID anfon y ffurflen yn uniongyrchol at y Cyngor gan ddeiliad y tŷ.

Bydd y gosodwr yn anfon adroddiad i gwmni ynni a fydd yn cynnig swm o arian y maen nhw'n credu sy'n briodol i wella sgôr effeithlonrwydd ynni'r eiddo.

3. Mae'r Cyngor yn codi £100 a TAW i dalu am gostau gweinyddu. Telir y gost gan y cyflenwr ynni neu'r gosodwr, nid gan y deiliad tŷ. **Ni chaiff y gosodwr ofyn i chi dalu'r pris hwn dan unrhyw amgylchiadau.**

4. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'r cymhwysedd, bydd rhaid i'r gosodwr basio hyn ymlaen i gwmni ynni, ynghyd â thystiolaeth bod y cleient yn byw yn yr eiddo (e.e. bil aelwyd) a thystiolaeth o berchnogaeth.
5. Y cyflenwyr ynni sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â p'un a fyddwch yn derbyn unrhyw gymorth neu beidio. Nid yw Datganiad wedi'i arwyddo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwarantu unrhyw waith gwella, oherwydd y cwmni ynni fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
6. Bydd angen i'r gosodwr ddod i'ch cartref i gwblhau arolwg arall i brisio costau'r gwaith yn gyson.

Os yw'r costau gosod yn is na'r gost a gynigwyd gan y cwmni ynni, caiff y gwaith ei gwblhau'n rhad ac am ddim. Os ddim, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi wneud cyfraniad ariannol, bydd y gosodwr yn eich cynghori ynglŷn â hyn. Sylwer: Nid oes rhaid i chi barhau â'r gwaith gosod ar y cam yma.

Os oes angen cyfraniad ariannol ar ddeiliad y tŷ, mae'n bosibl y bydd grantiau a benthyciadau ar gael i helpu â hyn. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Tîm Gwelliannau Tai ar 01492 574641

7. Unwaith y bydd y gosodwr wedi rhoi cynnig pendant i chi, byddant yn archebu'r deunydd a/neu'n trefnu contractwr ac yn trefnu dyddiad i gwblhau'r gwaith gwella.

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nag atebolrwydd dros unrhyw oblygiadau negyddol, difrod neu golled a achoswyd yn sgil y grant ECO FLEX neu yn sgil y gwaith neu'r ymdrechion mewn perthynas â'r paratodau, y broses ymgeisio neu'r arolwg cyn y grant.

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn arnodi unrhyw gyflenwr ynni, gosodwr grant na chwmni penodol mewn perthynas â cheisiadau a gosod grantiau neu gynnyrch ECO flex. Dylid codi unrhyw fater neu anghydfod a achoswyd yn sgil y gwaith grant neu'r broses ymgeisio â'r gosodwr/ cyllidwr. Mae cyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i gyfyngu i ddatganiad y cymhwysedd. O>Rheoleiddir y cynllun gan Ofgem a dylid cyfeirio unrhyw bryderon neu gwynion at Ofgem.